



Adolygiad o'r Côt Darlledu: Cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu

Datganiad am Gôd Darlledu Ofcom

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi:

Rhan 1

Crynodeb Gweithredol

Mae'r datganiad hwn yn dod ag ymgynghoriadau 2009 a 2010 Ofcom i ben, ac yn nodi rheolau newydd y Côt Darlledu i ganiatáu gosod cynnyrch¹ yn amodol ar rai rhagofalon. Mae hefyd yn nodi rheolau diwygiedig ar gyfer mathau eraill o gyfeiriadau masnachol yn ystod rhaglenni teledu, megis nawdd.

Mae Ofcom wedi diwigio'r Côt Darlledu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w bwrpas, ac er mwyn cyflawni'n dyletswydd statudol i osod safonau ar gyfer gosod cynnyrch o fewn raglenni teledu. Mae'r rheolau newydd yn gweithredu newidiadau i ddeddfwriaeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd, a'u bwriad yw galluogi darlledwyr masnachol i gael gafael ar ffrydiau referiw newydd, gan sicrhau hefyd bod cynulleidfaoedd yn cael eu gwarchod.

*Mae'r rheolau newydd a diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn mewn Adran Naw ddiwygiedig o'r Côt Darlledu, ynghyd ag arweiniad cychwynnol. **Ni fydd y rheolau yn yr Adran Naw ddiwygiedig hon yn dod i rym tan 28 Chwefror 2011, ar ôl cyfnod gweithredu.** Tan y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu barhau i gydymffurfio â'r rheolau presennol, sydd yn awr i'w cael yn Adran Naw (Teledu) ar Nawdd, ac Adran Deg (Teledu) ar Gyfeiriadau Masnachol a Materion Eraill, sy'n cyd-fynd ag Adran Deg (Radio) newydd yng Nghôt Darlledu Rhagfyr 2010.*

Cyflwyniad

- 1.1 Y ddogfen hon yw'r datganiad rheoleiddio terfynol ar newidiadau i reolau Côt Darlledu Ofcom ("y Côt") ar gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu.
- 1.2 Mae'n dilyn dau ymgynghoriad ar y rheolau yn y maes hwn: Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Côt Darlledu (15 Mehefin i 4 Medi 2009) ("ymgynghoriad 2009")² a'r Adolygiad o'r Côt Darlledu: Ymgynghoriad ar gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu (28 Mehefin i 17 Medi 2010) ("ymgynghoriad 2010")³. Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â'r dogfennau ymgynghori hyn.
- 1.3 Mae'r rheolau sy'n deillio o'r ymgynghoriadau hyn i'w gweld yn Adran Naw y Côt (2011), y gellir ei gweld yn Atodiad 1. Bydd y rheolau yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad hwn ond ni fyddant yn dod i rym tan **Ddydd Llun 28 Chwefror 2011**, er mwyn gallu cael cyfnod gweithredu.
- 1.4 Tan y dyddiad hwn, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod y cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu yn dal i gydymffurfio â'r rheolau presennol yn Adran Naw (Teledu) ac Adran Deg (Teledu) y Côt (Rhagfyr 2010). Mae'r rhain ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/>.

¹ I gael rhestr o'r ystyron a'r termau ddefnyddir yn y ddogfen hon, gweler Atodiad 6.

² Mae'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Côt yn 2009 i'w gael yn Atodiad 4 i'r datganiad hwn ac mae ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcode09/>

³ Mae'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Côt yn 2010 i'w gael yn Atodiad 3 i'r datganiad hwn ac mae ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrtv2010/>

- 1.5 Dylai rhanddeiliaid nodi bod datganiad ar wahân ac Adran Deg (Radio) diwygiedig o'r Côt yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r datganiad hwn. Mae'n berthnasol i gyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio, ac mae ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrradio2010/statement/> Bydd y rheolau a'r adran o'r Côt sy'n berthnasol i raglenni radio'n benodol yn dod i rym ar ddyddiad eu cyhoeddi.

Cefndir

- 1.6 Fel rhan o'i ddyletswyddau a swyddogaethau o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 ("y Ddeddf"), mae'n rhaid i Ofcom lunio ac, o bryd i'w gilydd, ddiwygio côd ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, yn ymdrin â safonau mewn rhaglenni radio a theledu. Daeth y Côt i rym am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2005.
- 1.7 Ym mis Mehefin 2009, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad a gynigiai, ymysg materion eraill, adolygiadau i'r rheolau sy'n ymwneud â chyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu (megis y rheolau ar nawdd i raglenni a gosod cynnyrch).
- 1.8 Cafodd y rheolau a oedd yn cael eu cynnig yn ymgynghoriad 2009 eu drafftio ar sail y gwaharddiad hir yn y DU ar osod cynnyrch⁴. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU⁵ ei bwriad, yn amodol ar ymgynghoriad⁶, i godi'r gwaharddiad hwn a chaniatáu gosod cynnyrch mewn rhaglenni teledu, gyda rhai cyfyngiadau. Oherwydd y cyhoeddiad hwn, penderfynodd Ofcom ymestyn ei adolygiad o'r rheolau sy'n berthnasol i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu.
- 1.9 Ym mis Ebrill 2010, diwygiodd y Llywodraeth y Ddeddf (trwy Reoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (Gosod Cynnyrch) 2010) er mwyn caniatáu gosod cynnyrch ar deledu ac er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom osod safonau yng nghyswllt gosod cynnyrch.
- 1.10 Ym mis Mehefin 2010, lansiodd Ofcom ymgynghoriad arall yn cynnig rheolau newydd ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu ("ymgynghoriad 2010").

Ymatebion i ymgynghoriad 2009 ac ymgynghoriad 2010

- 1.11 Derbyniodd Ofcom 48 ymateb i'r cynigion a wnaethpwyd yn y maes hwn yn ymgynghoriad 2009 a 41 ymateb i ymgynghoriad 2010.
- 1.12 Pwrpas y datganiad rheoleiddio terfynol hwn yw nodi: y prif faterion a godwyd yn ymatebion rhanddeiliaid i ymgynghoriadau 2009 a 2010; ystyriaeth Ofcom o'r materion allweddol hynny a'i asesiad o effeithiau; a'i benderfyniadau, gan gynnwys (lle bo'n berthnasol) y testun esboniadol, yr ystyr(on), y rheol(au) a'r egwyddor(ion) terfynol, sydd yn awr wedi'u cynnwys yn Adran Naw diwygiedig y Côt.

⁴ Gosod cynnyrch yw cynnwys mewn rhaglen neu gyfeiriad mewn rhaglen at gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach yn gyfnewid am dâl neu gydnabyddiaeth werthfawr arall. Dyma grynodedeb o'r diffiniad o osod cynnyrch a geir yn y Ddeddf ddiwygiedig. Gellir gweld y diffiniad yn Atodlen 11A, paragraff 1(1), i'r Ddeddf.

⁵ http://www.culture.gov.uk/reference_library/minister_speeches/6194.aspx

⁶ http://www.culture.gov.uk/reference_library/consultations/6421.aspx

- 1.13 Lle bo'n briodol, ar ôl ystyried ymatebion y rhanddeiliaid, rydym wedi ailddrafftio'r rheolau a oedd wedi'u cynnig a/neu wedi rhoi sylw i rai materion yn yr arweiniad. Wrth wneud hynny rydym wedi ystyried dyletswydd Ofcom i sicrhau ei amcanion statudol dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 ac i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Golwg gyffredinol ar benderfyniadau Ofcom

- 1.14 I grynhoi, ar ôl ystyried barn rhanddeiliaid am y ddau ymgynghoriad, mae penderfyniadau Ofcom fel a ganlyn:

Gosod Cynnyrch

- 1.15 Rydym wedi cyflwyno rheolau yn y Côt a fydd yn caniatáu gosod cynnyrch mewn rhaglenni teledu, yn amodol ar nifer o ragofalon, drwy weithredu gofynion penodol y Ddeddf. Yn ogystal, rydym wedi:
- cynnwys rheol sy'n gwahardd gosod cynnyrch mewn rhaglenni newyddion;
 - cynnwys rheol sy'n datgan na chaiff cynnyrch, gwasanaeth na nod masnach ei osod os ydyw wedi'i wahardd rhag cael ei hysbysebu ar y teledu;
 - cynnwys rheol sy'n mynnu, lle mae'n rhaid dwyn sylw at y ffaith bod cynnyrch yn cael ei osod, bod hyn yn cael ei wneud drwy gyfrwng logo gweledol cyffredinol; (y bydd Ofcom yn darparu i ddarlledwyr yn ystod y cyfnod cyn i'r reolau dod i rym)
 - cadarnhau y byddwn yn anfon cais ffurfiol at ddarlledwyr yng nghyswllt neges neu ymgyrch codi ymwybyddiaeth y gynulleidfa am y logo gweledol cyffredinol. Bydd y gofyniad yma'n berthnasol os byddant yn gorfod dwyn sylw at y ffaith bod cynnyrch yn cael ei osod, ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyntaf pan fydd y rheolau mewn grym;
 - ei wneud yn glir bod dramâu unigol yn dod o dan y genre a ganiateir o "ffilmiau a wneir ar gyfer y teledu" ac a all felly gynnwys gosod cynnyrch a hefyd yn gorfod cydymffurfio â phatrymau egwylliau hysbysebu priodol ffilmiau (gweler paragraff 1.26, isod a Rhan 4 am fanylion cynnig newydd y mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori yn ei gylch, fel ffordd o roi sylw i'r pryderon a leisiwyd gan rhanddeiliaid yng nghyswllt y mater hwn); a
 - ei wneud yn glir y byddwn yn cymhwyso'r rheolau gosod cynnyrch i gyfeiriadau y telir amdanynt at gynnyrch, gwasanaethau a nodau masnach sy'n cael eu cynnwys mewn rhaglen deledu at ddiben anfasnachol.
- 1.16 Ceir manylion llawn y penderfyniadau hyn yn **Rhan 4** y datganiad hwn.

Nawdd

- 1.17 Rydym wedi cyflwyno rheolau diwygiedig yn y Côt ar nawdd. Drwy wneud hyn, rydym wedi:
- cadarnhau bod noddwyr yn gallu gosod cynnyrch yn y rhaglenni y maent yn eu noddi, yn amodol ar y rheolau gosod cynnyrch;
 - cynnwys rheol sy'n caniatáu darlledu credydau nawdd yn ystod rhaglenni ("credydau nawdd"), gyda chyfyngiadau ar eu cynnwys;

- cynnwys rheol yn gwahardd credydau mewnol mewn rhaglenni lle na cheir gosod cynnyrch (e.e. rhaglenni plant) neu ar gyfer noddwyr na chaiff osod cynnyrch (e.e. brandiau alcohol); a
- cynnwys rheol yn esbonio bod yn rhaid i'r holl gredydau am nawdd ddangos yn glir beth yw'r berthynas rhwng y noddwr a'r cynnwys nodedig.

1.18 Ceir manylion llawn y penderfyniadau hyn yn **Rhan 5** y datganiad hwn.

Diwygiadau eraill

1.19 Rydym wedi gwneud rhagor o ddiwygiadau i reolau'r Côt ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu. Drwy wneud hyn, rydym wedi:

- ailstrwythuro'r Côt, gan osod yr holl reolau ar gyfer cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu (gan gynnwys y rheini ar gyfer nawdd) yn yr Adran Naw diwygiedig;
- cynnwys testun rhagarweiniol i fynd gyda'r rheolau ac wedi rhoi ystyron i dermau a thestun esboniadol pellach, lle bo'n briodol;
- diwygio'r egwyddor a'r rheol gysylltiedig lle mae'n rhaid *gwahanu* hysbysebu a chynnwys golygyddol i rai lle mae'n rhaid *gwahaniaethu*;
- cynnwys egwyddor diogelu'r defnyddiwr;
- cynnwys rheol yn gwahardd hysbysebu llechwraidd;
- cyflwyno rheol sy'n mynnu bod cost gwasanaethau cyfradd premiwm yn glir;
- newid geiriad y rheolau ar gyfer apeliadau am arian ar gyfer rhaglenni neu wasanaethau;
- dileu'r rheol ar hysbysebu rhithwir; a
- gwneud newidiadau bychain eraill i'r rheolau presennol er eglurder.

1.20 Ceir manylion llawn y penderfyniadau hyn yn **Rhan 6** y datganiad hwn.

Rhaglenni Er Gwybodaeth i'r Cyhoedd

1.21 Fel rhan o ymgynghoriad 2009, roedd Ofcom am gael barn rhanddeiliaid ar briodoldeb cyflwyno rheolau ar gyfer Rhaglenni Er Gwybodaeth i'r Cyhoedd⁷. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad yn wahanol iawn eu barn. Gan gydnabod cymhlethdodau'r materion a godwyd gan ymatebwyr a'r ffaith nad oes consensws clir o ran a oes eisiau'r math hwn o raglenni, mae Ofcom wedi penderfynu gohirio gwneud unrhyw benderfyniad neu gyflwyno rheolau penodol ar Rhaglenni Er Gwybodaeth i'r Cyhoedd tan ar ôl gweithredu'r broses gosod cynnyrch.

1.22 Ceir manylion llawn y penderfyniad hwn yn **Rhan 7** y datganiad hwn.

Adran Naw y Côt Darlledu (2011) ac arweiniad cychwynnol

1.23 Fel y trafodir uchod, rydym yn awr yn cyhoeddi Adran Naw newydd i'r Côt sydd ar gael yn Atodiad 1.

⁷ Rhaglenni am faterion sydd er budd y cyhoedd a ariennir gan sefydliadau sydd â budd yn y pwnc.

- 1.24 Bydd y rheolau newydd yn dod i rym **Ddydd Llun 28 Chwefror 2011**. Tan y dyddiad hwn, rhaid i ddarlledwyr sicrhau bod y cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu yn dal i gydymffurfio â'r rheolau presennol, a geir yn awr yn Adran Naw (Teledu) ac Adran Deg (Teledu) y Côd (Rhagfyr 2010). Mae'r rhain ar gael yn: <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/>
- 1.25 Rydym hefyd yn cyhoeddi arweiniad **cychwynnol** newydd a diwygiedig yn ymwneud ag Adran Naw newydd (2011) y Côd. Mae ar gael yn Atodiad 2.

Cyfnod gweithredu - y camau nesaf

- 1.26 Dylai rhanddeiliaid nodi'r ystyriaethau allweddol canlynol:
- Efallai y bydd Ofcom yn cyhoeddi **arweiniad pellach neu ddiwygiedig** yn ymwneud ag Adran Naw newydd (2011) y Côd pan ddaw'r rheolau i rym. Os oes gan randdeiliaid unrhyw sylwadau am yr arweiniad cychwynnol (sydd ar gael yn Atodiad 3), neu os ydynt am weld Ofcom yn rhoi sylw i faterion ychwanegol yn yr arweiniad, dylent gysylltu â Suzanne Wright (suzanne.wright@ofcom.org.uk) neu Lauren Cleverley (lauren.cleverley@ofcom.org.uk) yn ystod y cyfnod gweithredu i drafod hyn.
 - Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd Ofcom yn **ymgyngori ar gynnig newydd yn ymwneud â threialu hepgoriad** i gyfyngiad COSTA ar hyd egwylliau hysbysebu ar gyfer ffilmiau a ddangosir gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. I gael manylion llawn y cynnig hwn, darllenwch baragraffau 4.42 i 4.23 yn Rhan 4 o'r ddogfen hon.
 - Ddechrau Ionawr 2011, bydd Ofcom yn darparu'r logo gweledol cyffredinol er mwyn dwyn sylw at y ffaith bod cynnyrch yn cael ei osod. Bydd hefyd yn cyflwyno cais ffurfiol i'w drwyddedeion teledu yn gofyn am gadarnhad o'u bwriadau yng nghyswllt **cyhoeddiad neu ymgyrch codi ymwybyddiaeth y gynulleidfa ar gyfer dwyn sylw at y ffaith bod cynnyrch yn cael ei osod**. I gael y manylion llawn, darllenwch baragraff 4.145 i 4.151 yn Rhan 4 o'r ddogfen hon.
 - Mae'r datganiad hwn hefyd yn nodi manylion bwriad Ofcom i ddechrau (o Ionawr 2012) **gwneud cais am ddata blynyddol ar yr holl refeniw net** (o 2011) y bydd darlledwyr trwyddedig a'r cynhyrchwyr y byddant yn eu comisiynu wedi'i gynhyrchu o ganlyniad i osod cynnyrch. Rydym yn gofyn i randdeiliaid am eu sylwadau am y cynnig hwn yn ystod y cyfnod gweithredu. I gael y manylion llawn, darllenwch baragraff 4.159 i 4.162 yn Rhan 4 o'r ddogfen hon.